Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Catrin Howells**

**Aberteifi**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

11/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad hwn. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac yn ymddiddori yn eu gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant. Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau manwl sy'n hyrwyddo llesiant y plant. Mae'r amgylchedd yn ofalgar ac mae'r gwarchodwr plant yn diwallu anghenion unigol y plant yn llwyddiannus. Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae llawer o le a digon o gyfleusterau er mwyn annog y plant i chwarae a dysgu. Mae'r teganau a'r offer chwarae yn briodol i oedran y plant ac mewn cyflwr da. Mae'r lleoliad yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r lleoliad yn effeithiol ac yn cydymffurfio â rheoliadau AGC. Mae'r datganiad o ddiben yn glir ac yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth. Mae gan y gwarchodwr plant ddisgwyliadau uchel ac mae'n rhannu ei gwerthoedd am ddysgu ac ymddygiad gyda'r plant a'i chynorthwyydd. Mae'r gwarchodwr plant yn cydweithio'n dda â'r rhieni i roi'r wybodaeth iddynt am y gwasanaeth yn ogystal ag am lesiant a gofal y plant.

## Llesiant

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan fod y gwarchodwr plant yn ystyried eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion. Mae safbwyntiau a diddordebau'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu arnynt. Mae'r plant yn chwarae yn yr ardal chwarae yn hapus, gan ddewis eu teganau eu hunain o'r bocs teganau. Mae'r plant yn gofyn am gael chwarae â'r ddoli, ac mae'r gwarchodwr plant yn gymwynasgar iawn ac yn chwarae ochr yn ochr â'r plant.

Mae'r plant yn llawn egni, ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Gwelsom fod y plant yn edrych ymlaen at chwarae yn yr awyr agored ac yn dweud eu bod am chwarae â'r bêl droed. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Gwelsom fod y plant yn teimlo'n gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant. Wrth newid cewynnau, helpodd y plant i estyn y cyfarpar cyn mynd ati i helpu i newid y cewyn ar y ddoli.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson dda ac mae'r plant yn cydweithio'n dda â'r gwarchodwr plant. Clywsom y plant yn ceisio ailadrodd geiriau ac ymadroddion a ddefnyddiwyd gan y gwarchodwr plant. Roedd y plant hefyd yn ceisio dysgu rhai geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol gan y gwarchodwr plant. Roedd y plant yn gwrtais ac yn barchus.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddechrau eu chwarae eu hunain a dylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau. Cynhaliwyd diddordeb y plant am gyfnod wrth iddynt chwarae â'r bêl droed, a'i rholio i lawr y llethr a cheisio ailadrodd “*ready, steady, go”* *(yn barod, gan bwyll, ewch)* cyn penderfynu y byddai'n well ganddynt chwarae â'r sialciau, gan roi cynnig ar wneud marciau ar y ffens. Mae'r plant yn cael cymorth ac anogaeth gan y gwarchodwr plant i'w helpu i dynnu lluniau. Roedd gan y plant ymdeimlad da o gyflawni rhywbeth a hunan-barch mawr.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Roedd y plant yn eistedd mewn cadeiriau uchel wrth y bwrdd cinio ac yn dewis yr hyn roeddent am ei fwyta am eu byrbryd yn annibynnol. Gwelsom fod y plant yn symud o gwmpas y lleoliad yn ddirwystr, gan ddychwelyd i'r bocs teganau pan oeddent am chwarae â rhywbeth newydd. Mae gan y plant lais cryf, maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu, ac mae eu llesiant yn cael ei hyrwyddo'n dda iawn.

## Gofal a Datblygiad

Mae gan y gwarchodwr plant bolisi rheoli ymddygiad da, ac mae'n ei roi ar waith ac yn ei ddilyn yn gyson. Mae'r gwarchodwr plant yn ddigynnwrf ac yn ofalgar bob amser, ac mae'n cyfathrebu â'r plant yn glir. Mae'r gwarchodwr plant yn canmol y plant yn gyson ac yn dangos esiampl gadarnhaol. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant nad oedd unrhyw blant yn ei gwasanaeth ag anghenion gofal iechyd penodol, ond fod ganddi ymwybyddiaeth dda o'i pholisi meddyginiaeth. Mae ganddi ffurflenni caniatâd ysgrifenedig gan y rhieni ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd, gan gynnwys teithiau, triniaeth feddygol frys a defnyddio eli haul. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i ddiogelu ac amddiffyn y plant. Roedd ganddi ddealltwriaeth drylwyr o'r prosesau i'w dilyn wrth ymateb i senarios amddiffyn plant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi rhoi trefniadau glanhau ac arferion hylendid da ar waith, ac mae'n dilyn amserlen lanhau ddyddiol ac wythnosol. Wrth newid cewynnau, roedd y gwarchodwr plant yn dilyn ei pholisi newid cewynnau yn drylwyr, gan wisgo menig a ffedog drwy gydol y broses. Sychodd y gwarchodwr plant y mat newid cewynnau gan ddefnyddio weips gwrthfacterol cyn ac ar ôl ei ddefnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod y plant yn gwybod bod angen dilyn arferion hylendid sylfaenol, ac mae'n sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl bwyta eu byrbryd. Mae'r gwarchodwr plant yn sychu trwynau'r plant yn aml ac yn gwaredu'r hancesi yn ddiogel.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant ac mae'n hyderus i drafod datblygiad y plant â'r rhieni. Mae wedi dechrau cynllunio ar gyfer y camau nesaf ac yn dechrau datblygu dull o fonitro cynnydd y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am eu plentyn. Mae'n rhoi sicrwydd i'r plant ac yn eu cefnogi wrth iddynt wneud gweithgareddau ac arferion dyddiol, gan annog eu hannibyniaeth. Mae'r gwarchodwr plant hefyd yn mynd â'r plant i'r traeth a'r parc lleol. O ganlyniad i COVID-19, nid yw'r plant yn mynychu grwpiau chwarae ar hyn o bryd. Fodd bynnag, arferai'r gwarchodwr plant fynd â'r plant i grŵp Cymraeg lleol.

Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar farn y plant ac yn parchu eu barn. Mae'r gwarchodwr plant yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd, gan ddefnyddio ymadroddion fel *merch dda* a *da iawn* i ganmol ac annog y plant. Mae'n hyrwyddo cwrteisi hefyd. Gwelsom y gwarchodwr plant yn gwrando’n astud ar straeon y plant, gan ddangos brwdfrydedd yn yr hyn roeddent yn ei rannu. ** Clywsom y gwarchodwr plant yn annog y plant, ac yn eu helpu i gyfrif a dysgu eu lliwiau.

## Yr Amgylchedd

Mae cartref y gwarchodwr plant yn glyd, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg effeithiol a chywir ar waith, ac mae'n eu hadolygu'n rheolaidd. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cwblhau ac yn cofnodi ymarferion tân yn rheolaidd. Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau brys ar waith, gan gynnwys ffurflenni cydsyniad meddygol brys ar gyfer pob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel. Er enghraifft, mae'n cadw'r drws ffrynt ar glo gan ddefnyddio system gloi, ac mae'n sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau, fel gwirio'r boeler. Mae wedi cwblhau asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer yr amgylchedd dan do, teithiau ac ymweliadau, a dogfen ar wahân i adlewyrchu arferion cyfredol mewn perthynas â COVID-19.

Mae gan y gwarchodwr plant ardal chwarae dan do dda i'r plant symud o gwmpas yn ddirwystr. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu'r amgylchedd yn dda er mwyn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae i'r plant. Mae'n darparu amgylchedd sy'n cefnogi annibyniaeth y plant yn ogystal â gweithgareddau chwarae addas. Mae'r plant yn gallu cael gafael ar rai adnoddau o'r bocs teganau, a gaiff ei storio yn yr ystafell chwarae. Roedd amrywiaeth eang o deganau yn cael eu storio mewn blychau priodol, megis offerynnau cerdd, byrddau sialc, teganau synhwyraidd, dinosoriaid, anifeiliaid, a llawer o lyfrau. O ganlyniad i'r pandemig, nid oedd y plant yn rhydd i ddefnyddio'r rhain, er mwyn sicrhau y cânt eu glanhau'n drwyadl ar ôl eu defnyddio.

Mae'r ardal awyr agored wrthi'n cael ei datblygu ymhellach er mwyn sicrhau ei bod yn addas ac yn ymarferol. Ceir mynediad i brif ardal laswelltog yr amgylchedd awyr agored lle mae'r plant yn chwarae drwy set o risiau serth. Mae'r gwarchodwr plant wedi sicrhau diogelwch y plant sy'n chwarae yn yr ardal hon drwy godi ffens a giât o amgylch terfyn allanol yr ardal laswelltog. Yn ystod ein hymweliad, roedd y gwarchodwr yn helpu'r plant i fyny'r grisiau ac yn eu gwylio yn ofalus. Yn yr ardd, roedd y plant yn cael dewis chwarae ag eitemau, gan gynnwys llithren fawr, cegin fwd, palwyr, peli a thractorau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau eu bod yn defnyddio'r ardal chwarae awyr agored mor aml â phosibl.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y gwarchodwr plant weledigaeth bendant ar gyfer y lleoliad. Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben ar waith, sy'n egluro ei gwasanaeth gwarchod plant ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig. Mae'n wybodus am ei chyfrifoldebau rheoliadol. Mae gan y gwarchodwr plant yr holl waith papur gofynnol. Er enghraifft, yn ystod ein hymweliad, roedd wedi cwblhau cofnodion cywir o bresenoldeb a gwybodaeth bersonol y plant. Mae'r gwarchodwr plant wedi trefnu yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac mae ganddi ddogfennau cerbyd priodol. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i rôl mewn perthynas â diogelu data, cyfrinachedd a chadw data, ac mae'n sicrhau bod holl wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob aelod o'r cartref. Mae ganddi bolisïau effeithiol ar waith a gwelsom fod y rhain yn cael eu dilyn yn ymarferol. Dangosodd trafodaeth â'r gwarchodwr plant ei bod yn agored i syniadau newydd ac yn croesawu'r angen i wella'n barhaus. Roedd ei dealltwriaeth o ddiogelu ac amddiffyn plant yn gadarn ac mae wedi cwblhau'r hyfforddiant 'Dyletswydd Atal'. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod ansawdd arwain a rheoli'r lleoliad yn addas.

Mae gan y gwarchodwr plant system ar gyfer rhoi'r broses hunanwerthuso ar waith. Mae'n adolygu ansawdd y gofal yn flynyddol. Fodd bynnag, mae angen cynnwys barn y rhieni a'r plant. Lluniwyd holiaduron perthnasol a dywedodd y gwarchodwr plant wrthym y caiff y rhain eu dosbarthu pan fydd y rhieni a'r plant wedi cael amser i ymgyfarwyddo unwaith eto â'r drefn arferol o fynychu'r lleoliad yn rheolaidd. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Cadarnhaodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a roddir "*Catrin is kind, patient and conscientious. She takes the time to talk me through what my child has done during her session each time. I have recommended her to several of my friends."* (*Mae Catrin yn garedig, yn amyneddgar ac yn gydwybodol. Mae'n cymryd amser i drafod yr hyn y mae fy mhlentyn wedi'i wneud yn ystod ei sesiwn â mi bob tro. Rwyf wedi'i hargymell i nifer o'm ffrindiau).* Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth dda o'i chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Yn ystod ein hymweliad, clywsom y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n barhaus. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn arfer mynd â'r plant i grwpiau chwarae Cymraeg yn aml o dan amgylchiadau arferol. Esboniodd hefyd ei bod yn bwriadu buddsoddi mewn rhagor o gyfarpar chwarae a fydd yn helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg y plant, megis teganau sy'n chwarae cerddoriaeth Gymraeg.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Parhau i ddatblygu'r amgylchedd awyr agored

A2 Parhau i ddatblygu ac ymgorffori dulliau a ddefnyddir i gofnodi gwaith blaengynllunio a monitro cynnydd plant.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
| --- |

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
| --- | --- |
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
| --- | --- |
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/06/2021